WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o'r trefniadau i gefnogi'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas – **Cyngor Caerdydd**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1184A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw Aelod, Cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu capasiti unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Samantha Clements a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 5

Cynigion ar gyfer Gwella 6

Adroddiad Manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli rhaglen cadarn ar gyfer ei Raglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas, ond mae angen iddo gryfhau ymgysylltiad â'r swyddogaeth graffu a chysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig 7

Mae trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Rhaglen yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall a herio cynnydd, ond mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr adnoddau a'r amser uwch swyddogion a neilltuir i'r Rhaglen yn cyflawni deilliannau gwell 7

Mae rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a herio'r Rhaglen heb ddatblygu digon 8

Mae'r Cyngor yn gweithio'n adeiladol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i helpu i roi'r Rhaglen ar waith 9

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y modd y gall fynd i'r afael â'r galw sylweddol am ei wasanaethau, sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau a mynd i'r afael â heriau ariannol tymor canolig trwy'r Rhaglen, ond gallai cysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig gael eu cryfhau 9

# Adroddiad manwl

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn 2017, fe gymeradwyodd y Cabinet 'Uchelgais Prifddinas', rhaglen bolisi 5 mlynedd y weinyddiaeth ar gyfer y Cyngor. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu trosi'n Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2018-21, sef Cyflawni Uchelgais Prifddinas. Mae'r Cyngor hefyd wedi alinio trefniadau cynllunio a chyflawni mewn partneriaeth ar gyfer cyflawni meysydd allweddol o fewn Uchelgais Prifddinas sy'n galw am weithio mewn partneriaeth strategol.

2 Cymeradwyodd y Cabinet gynnig i sefydlu a gweithredu'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas dros bedair blynedd ar 14 Rhagfyr 2017. Mae dwy elfen i'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas: Moderneiddio a Gwasanaethau Cydnerth. Y diffiniad o foderneiddio yw: trawsnewid systemau a phrosesau corfforaethol sydd o gymorth i ddarparu gwasanaethau a'r diffiniad o Wasanaethau Cydnerth yw: trawsnewid gwasanaethau rheng-flaen, yn nodweddiadol gan weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, gyda chymunedau lleol a chyda'r rhai sy'n cael y gwasanaeth.

3 Trefnwyd ffocws a diben ein hadolygiad gan y ffaith bod y Cyngor yn dal i brofi pwysau ariannol difrifol sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r holl wasanaethau gael eu herio i:

- gyflawni lefelau uchel o arbedion;
- rheoli pwysau o ran y galw, yn enwedig ym maes gwasanaethau cymdeithasol; a
- bodloni blaenoriaethau'r Cyngor a nodir yn 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas'.

4 Fe wnaethom fonitro'r broses o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd (y Cyngor). Fe ddewison ni gynnal yr adolygiad hwn dros nifer o fisoedd, er mwyn arsylwi ar y trefniadau llywodraethu ar waith.

5 Fe gynhalion ni'r adolygiad rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019.

## Yr hyn a ganfuom

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw trefniadau'r Cyngor i roi cymorth i gyflawni ei Raglen Cyflawni 'Uchelgais Prifddinas' dros bedair blynedd yn ei alluogi i fynd i'r afael â'i heriau ariannol a sefydliadol allweddol?

7 Ar y cyfan canfuom: mae gan y Cyngor drefniadau rheoli rhaglen cadarn ar gyfer ei Raglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas, ond mae angen iddo gryfhau ymgysylltiad â'r swyddogaeth graffu a chysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig. Canfuom hyn oherwydd:

- mae trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Rhaglen yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall a herio cynnydd, ond mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr adnoddau a'r amser uwch swyddogion a neilltuir i'r Rhaglen yn cyflawni deilliannau gwell.
- mae rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a herio'r Rhaglen heb ddatblygu digon.
- mae'r Cyngor yn gweithio'n adeiladol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i helpu i roi'r Rhaglen ar waith.
- mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y modd y gall fynd i'r afael â'r galw sylweddol am ei wasanaethau, sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau a mynd i'r afael â heriau ariannol tymor canolig trwy'r Rhaglen, ond gallai cysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig gael eu cryfhau.

## Cynigion ar gyfer Gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor gryfhau rôl y swyddogaeth graffu o ran ymgysylltu â'r Rhaglen, a herio'r modd y caiff ei chyflawni a'i heffaith, i gynyddu atebolrwydd a helpu i ddarparu momentwm. |
| C2 | Byddai o fudd i'r Cyngor pe bai adolygiad yn cael ei gynnal o drefniadau rheoli'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas ochr yn ochr ag eraill sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol megis Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethau. |
| C3 | Gallai'r Cyngor wneud mwy i asesu i ba raddau y mae'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas yn cyfrannu at gyrraedd targed arbedion y Cyngor o £91m a chreu cysylltiadau â'r cynllun ariannol tymor canolig. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli rhaglen cadarn ar gyfer ei Raglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas, ond mae angen iddo gryfhau ymgysylltiad â'r swyddogaeth graffu a chysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig

### Mae trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Rhaglen yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall a herio cynnydd, ond mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr adnoddau a'r amser uwch swyddogion a neilltuir i'r Rhaglen yn cyflawni deilliannau gwell.

8 Mae gweinyddiaeth y Cyngor wedi mynegi ei blaenoriaethau yn ei rhaglen bolisi, sef 'Uchelgais Prifddinas'. Mae'r Cyngor wedi trosi'r blaenoriaethau hyn yn Gynllun Corfforaethol, sef 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas'. Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas (y Rhaglen) i gyflawni newid i wasanaethau mewn meysydd diffiniedig y mae gofyn eu diwygio'n sylweddol.

9 Mae gan y Rhaglen broffil uchel yn y Cyngor gydag ymrwymiad cryf ar ran uwch reolwyr a'r Weithrediaeth. Mae'r Rhaglen wedi'i rhannu'n ddau bortffolio o fyrddau:

- mae'r portffolio moderneiddio o fyrddau'n canolbwyntio ar drawsnewid systemau/prosesau corfforaethol sy'n cefnogi rhaglenni darparu gwasanaethau megis Landlord Corfforaethol a Digidol yn Gyntaf.
- mae'r portffolio cadernid o fyrddau'n canolbwyntio ar drawsnewid Rhaglenni gwasanaethau rheng-flaen megis Gwella Deilliannau i Blant, Gwella Deilliannau i Oedolion, Twf Cynhwysol a Strydlun.

10 Mae swyddogion yn darparu asesiad chwarterol o sefyllfa'r Cyngor o ran cyflawni 'Uchelgais Prifddinas' ar gyfer y Cabinet yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynnydd a Pherfformiad. Mae hyn yn ychwanegol at gyfarfodydd ffurfiol y Cabinet y mae adroddiadau a chofnodion ar eu cyfer ar gael yn gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw aelodau'n fwy cyffredinol mor ymwybodol o'r Rhaglen. Bydd mwy o ymwybyddiaeth o'r Rhaglen ymhlith aelodau'n ei gwneud yn bosibl bod â dealltwriaeth well am gynnydd a deilliannau sy'n deillio ohoni.

11 Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor yn cyflawni swyddogaeth Bwrdd Rheoli Rhaglen trosfwaol sy'n cwmpasu'r ddau bortffolio. Mae hwn yn cwrdd bob pythefnos ac yn neilltuo cyfran o'r amser ar ei agenda i fonitro'r Rhaglen a bod â throsolwg arni. Mae'r Bwrdd Rheoli Rhaglen yn cael adroddiadau dangosfwrdd ar gyfer y Rhaglen ar sail eithriadau'n seiliedig ar risg.

12 Fe arsylwon ni ar un o gyfarfodydd y Bwrdd Digidol sy'n rhan o bortffolio'r Rhaglen Moderneiddio. Cafodd y cyfarfod hwn ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, ac roedd yn amlwg bod cynnydd yn cael ei gyflwyno'n glir ac yn cael ei fonitro'n gadarn.

13 Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi mewn adnodd corfforaethol canolog, tîm a sefydlwyd i oruchwylio a rheoli'r Rhaglen. Y tîm hwn o staff sy'n gyfrifol am gynnal cronfa ddata ganolog o brosiectau a chynnal cyswllt rheolaidd â swyddogion sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith prosiect. Mae rheolwr y tîm yn cydgrynhoi'r wybodaeth hon ac yn ei defnyddio i baratoi adroddiadau monitro i'w cylchredeg i'r amryw grwpiau sy'n rhan o lywodraethu'r rhaglen. Yn ychwanegol at hyn, ceir ymwneud rheolaidd gan yr adrannau cyllid, Adnoddau Dynol, caffael a TGCh i fynd ati'n weithredol i gefnogi, galluogi a herio'r broses o gyflawni'r Rhaglen.

14 Mae'r ddogfennaeth ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglen yn cyfeirio at yr angen i fynd ati'n well i fonitro costau prosiectau yn erbyn eu manteision (er enghraifft, cyfrifoldeb allweddol yn Amodau Gorchwyl y Bwrdd Rhaglen Strydlun), ond ni chanfuom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn cael ei wneud. Bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Cyngor werthuso'r Rhaglen yn well o safbwynt cyflawni gwerth am arian.

15 Mae'r Cyngor wedi neilltuo lefel uchel o adnoddau ac amser uwch reolwyr i reoli a chyflawni'r Rhaglen ac mae'r ymrwymiad hwn yn helpu i alluogi'r broses o gyflawni'r Rhaglen. Dylai'r Cyngor fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r rhaglen i sicrhau bod yr ymrwymiad lefel uchel hwn ac amser uwch swyddogion yn cael eu trosi'n effeithiol ac yn effeithlon yn newid i wasanaethau a deilliannau gwell.

16 Yn ychwanegol at drefniadau llywodraethu'r Rhaglen, mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu pellach fel a ddangosir mewn siart lif yng Nghynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau. Mae'r siart lif hon yn disgrifio llinellau atebolrwydd eglur i gyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol a'r Cynllun Corfforaethol ac mae'n cynnwys Cynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau eu hunain, Cynlluniau Gwasanaethau (er nad yw'r rhain wedi'u mandadu) a gwybodaeth am berfformiad unigolion ar gyfer adolygiadau personol. Mae'r siart lif yn nodi bod Cynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau'n cyfeirio at y Cynllun Corfforaethol, ond nad ydynt yn alinio â'r Rhaglen. Felly ceir dwy set o drefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ond nid yw'r cysylltiadau rhwng y setiau gwahanol hynny o drefniadau llywodraethu'n eglur.

## Mae rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a herio'r Rhaglen heb ddatblygu digon

17 Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen yn nodi y bydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad yn cael adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen. Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r Rhaglen oedd gan gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad a hyd yma nid yw'r pwyllgorau craffu wedi cael adroddiad blynyddol. Mae'r Rhaglen yn bodoli ers mis Rhagfyr 2017 felly mae'r adroddiad yn hwyr yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi.

18 Rydym yn nodi bod agweddau ar y Rhaglen wedi cael eu hystyried gan y pwyllgorau craffu. Er enghraifft, mae adroddiad ar y gwaith Cymorth i Deuluoedd wedi cael ei

gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, gellid ei gwneud yn fwy clir i'r aelodau lle mae prosiectau'n rhan o'r Rhaglen.

19 Er bod y cynnydd o ran rhoi'r Rhaglen ar waith yn cael ei fonitro'n effeithiol gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cabinet, mae angen ystyried sut orau all pwyllgorau craffu ymgysylltu'n ystyrlon â'r Rhaglen a herio'r modd y caiff ei chyflawni a'i heffaith i gynyddu atebolrwydd a helpu i ddarparu momentwm.

## Mae'r Cyngor yn gweithio'n adeiladol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i helpu i roi'r Rhaglen ar waith

20 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill a chyda chymunedau lleol i ddarparu datrysiadau parhaus i broblemau cymhleth. Caiff hyn ei enghreifftio yn y Cynllun Corfforaethol sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i helpu i reoli effaith barhaus y cynni cyllidol. Fe'i henghreifftir hefyd trwy'r aliniad rhwng Cynllun Llesiant y ddinas a'r blaenoriaethau yn Uchelgais Prifddinas a thrwy'r aliniad rhwng trefniadau'r ddinas ar gyfer cyflawni mewn partneriaeth a'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas.

21 Lle ceir cyfleoedd i gyflawni prosiectau ar y cyd, megis Gwella Deilliannau i Blant ac Oedolion, yna bydd set ar wahân o drefniadau llywodraethu'n berthnasol i'r Byrddau a hwythau'n adrodd wrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y strwythur adrodd hwn wedi'i fwriadu i hwyluso llinellau atebolrwydd clir a chydberchnogaeth ar ddeilliannau bwriadedig. Mae'r trefniadau hyn yn ymsefydlu'n fwyfwy.

22 Fel rhan o'r gwaith maes fe arsylwon ni ar un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwella Deilliannau i Blant a chanfuom fod ystod o gyrff a rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus yn bresennol ynddo gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thai. Roedd y grŵp yn golegaidd iawn ac yn amlwg yn deall manteision cydweithio, gan rannu gwybodaeth ac adnoddau i gyrraedd nodau cyffredin. Mae'r Bwrdd yn canlyn arni â phrosiectau ataliol, amlasiantaeth, gan gynnwys datblygu a gweithredu'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar a Chymorth i Deuluoedd newydd.

## Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y modd y gall ateb y galw sylweddol am ei wasanaethau, sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau a mynd i'r afael â heriau ariannol tymor canolig trwy'r Rhaglen, ond gallai cysylltiadau â'i gynllun ariannol tymor canolig gael eu cryfhau.

23 Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn her eithriadol. Mae'r Cyngor wedi cyflawni bron i £250 miliwn mewn arbedion cronnol dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys dros £105 miliwn rhwng 2014-15 a 2016-17. Mae wedi cyflawni gostyngiad o fwy nag 20% yn ei staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion ers 2012-13.

24 Gan droi ein golygon tua'r dyfodol, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn rhaid iddo gyflawni arbedion o £91 miliwn yn y cyfnod hyd at 2021. Mae'r Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn wynebu cyfnod parhaus o gyfyngiadau dwys ar gyllidebau ar adeg pan ragwelir y bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu'n sylweddol a phan fo disgwyliadau dinasyddion o wasanaethau'n dal i fod yn uchel. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cydnabod bod angen iddo foderneiddio a datblygu gwasanaethau cydnerth i helpu i fynd i'r afael â hyn. Gan hynny, ceir disgwyliad enfawr y bydd y Rhaglen yn gwneud gwahaniaeth.

25 Mae'r Rhaglen wedi'i bwriadu i alluogi newid o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd rhai o'r prosiectau yn y Rhaglen yn arwain at welliant na newid am nifer o flynyddoedd oherwydd y datrysiadau mwy hirdymor ac ataliol a geisir, megis y rhai sy'n deillio o'r ffrwd waith Gwella Deilliannau i Blant. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r farn bod rhai agweddau ar y Rhaglen eisoes yn cyflawni newid. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn gwneud cynnydd da o ran cyflwyno'r cynorthwyydd rhithwir/sgyrsfot dwyieithog cyntaf.

26 Er nad y Rhaglen yw'r unig ddatrysiad i'r bwlch yng nghyllideb y Cyngor, bydd arbedion ariannol yn deillio ohoni. Er enghraifft, cafodd y Cabinet adroddiad ym mis Gorffennaf 2018 a oedd yn nodi y bydd technolegau effeithiol newydd sy'n deillio o Agenda Ddigidol y Cyngor yn cynyddu arbedion effeithlonrwydd i'r eithaf gan hefyd gynorthwyo'r Cyngor i ateb y gofyniad ar gyfer arbedion gwerth £14.3 miliwn yn 2018-19. Wrth arsylwi ar un o gyfarfodydd y Bwrdd Digidol ym mis Hydref 2018, gwelsom fod y Bwrdd Digidol yn cyfeirio'n benodol at yr angen i gyflawni arbedion yn y gyllideb o ganlyniad i 'Ap Caerdydd' a'r prosiect 'Addysg – Rheoli Gwybodaeth' a bod 'gostyngiadau parhaus mewn cyllidebau a galw uwch yn golygu bod rhaid i wasanaethau ddod o hyd i ffyrdd o wneud 'mwy â llai'.

27 Teimlwn y gallai'r Cyngor wneud mwy i asesu i ba raddau y mae'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas yn cyfrannu at gyrraedd targed arbedion y Cyngor o £91m. Mae'r Rhaglen yn adnodd-ddwys a bydd mwy o dryloywder yn gwella'r cyfleoedd i bwyllgorau craffu herio deilliannau'r rhaglen yn fwy effeithiol hefyd, er enghraifft cyfeirio at arbedion yn adroddiadau monitro'r Rhaglen ac yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru